

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mercher, 11 Mawrth 2015

Amser y cyfarfod:
13.30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Pleidleisiau a Thrafodion

(253)v2

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2 a 10 eu grwpio. Gwahoddodd y Llywydd llefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd y 15 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2 a 10 eu grwpio. Gwahoddodd y Llywydd llefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 15.06

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i ailgylchu yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 15.10

NDM5716 Alun Ffred Jones (Arfon)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i Ailgyrchu, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2015.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.47

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM5717 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi diffyg uchelgais Llywodraeth Cymru o ran gwella'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru;
2. Yn cydnabod cyfraniad sylweddol busnesau gwledig i economi Cymru, ond yn nodi'r potensial ar gyfer mwy o dwf; a
3. Yn annog Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau ledled Cymru drwy:
 - a) gwella isadeiledd, cysylltedd a sgiliau ledled Cymru;
 - b) gwella rôl awdurdodau lleol o ran eu cyfraniad at dwf economaidd;
 - c) gwella mynediad at gyllid i bob busnes yng Nghymru; a
 - d) cynyddu'r gyfradd eithrio ar gyfer pob eiddo busnes sydd â gwerth ardrethol o lai na £12,000.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
11	0	38	49

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Yn is-bwynt 3c), ar ôl 'yng Nghymru', mewnosod 'drwy greu Banc Datblygu Cymru i weithredu fel 'siop un stop' ar gyfer cyngor busnes a mynediad at gyllid a man galw cyntaf ar gyfer busnesau'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
15	9	25	49

Gwrthodwyd gwelliant 1.

Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Dileu is-bwynt 3d) a rhoi yn ei le:

galluogi cadw trethi busnes yn lleol er mwyn cymell twf economaidd lleol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
29	0	20	49

Derbyniwyd gwelliant 2.

Gan fod gwelliant 2 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.

Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

cefnogi trefi marchnad Cymru, canolfannau traddodiadol ein cymunedau, a'r seilwaith sylfaenol o'u cwmpas.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
39	9	0	48

Derbyniwyd gwelliant 4.

Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

cynyddu'r gyfran o gontractau caffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau Cymreig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
49	0	0	49

Derbyniwyd gwelliant 5.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

NDM5717 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi diffyg uchelgais Llywodraeth Cymru o ran gwella'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru;
2. Yn cydnabod cyfraniad sylweddol busnesau gwledig i economi Cymru, ond yn nodi'r potensial ar gyfer mwy o dwf; a
3. Yn annog Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau ledled Cymru drwy:
 - a) gwella isadeiledd, cysylltedd a sgiliau ledled Cymru;
 - b) gwella rôl awdurdodau lleol o ran eu cyfraniad at dwf economaidd;
 - c) gwella mynediad at gyllid i bob busnes yng Nghymru;
 - d) galluogi cadw trethi busnes yn lleol er mwyn cymell twf economaidd lleol;
 - e) cefnogi trefi marchnad Cymru, canolfannau traddodiadol ein cymunedau, a'r seilwaith sylfaenol o'u cwmpas;
 - f) cynyddu'r gyfran o gontractau caffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau Cymreig.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
23	0	25	48

Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

6 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.41

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

NDM5718 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Adroddiad Synthesis y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) ar gyfer 2014 sy'n datgan:

a) bod dylanwad dynol ar y system hinsawdd yn glir, ac mai'r allyriadau anthropogenig diweddar o nwyon tŷ gwydr yw'r rhai uchaf mewn hanes;

b) bod yr awyrgylch a'r môr wedi cynhesu, bod cyfanswm yr eira a'r rhew wedi lleihau, a lefel y môr wedi codi; a

c) y gall gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau dros y degawdau nesaf leihau risgiau i'r hinsawdd yn yr 21ain ganrif a thu hwnt, cynyddu rhagolygon ar gyfer addasu effeithiol, lleihau costau a heriau lliniaru yn y tymor hwy, a chyfrannu at lwybrau datblygu cynaliadwy sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
9	0	40	49

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 2 a rhoi'r canlynol yn ei le:

Yn edrych ymlaen at Fil yr Amgylchedd a fydd yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
34	0	15	49

Derbyniwyd gwelliant 1.

Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

NDM5718 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Adroddiad Synthesis y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) ar gyfer 2014 sy'n datgan:

a) bod dylanwad dynol ar y system hinsawdd yn glir, ac mai'r allyriadau anthropogenig diweddar o nwyon tŷ gwydr yw'r rhai uchaf mewn hanes;

b) bod yr awyrgylch a'r môr wedi cynhesu, bod cyfanswm yr eira a'r rhew wedi lleihau, a lefel y môr wedi codi; a

c) y gall gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau dros y degawdau nesaf leihau risgiau i'r hinsawdd yn yr 21ain ganrif a thu hwnt, cynyddu rhagolygon ar gyfer addasu effeithiol, lleihau costau a heriau lliniaru yn y tymor hwy, a chyfrannu at lwybrau datblygu cynaliadwy sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd.

2. Yn edrych ymlaen at Fil yr Amgylchedd a fydd yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
49	0	0	49

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

7 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.24

Crynodeb o Bleidleisiau

8 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.29

NDM5714 Russell George (Sir Drefaldwyn)

Gweithgareddau'r Grid Cenedlaethol yng nghanolbarth Cymru.

Atal Sir Drefaldwyn rhag cael ei diwydiannu a'i dinistrio.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.47

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2015